Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol, 2020-25

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

**Diogelu data, cyfrinachedd a chyhoeddi ymatebion**

Bydd Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) yn rheolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru bwerau i brosesu data personol o'r fath o dan adrannau 9 a 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn unol â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff data personol ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Gweler ein Hysbysiad Prosesu Teg am ragor o wybodaeth.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Os ydych am i unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb ac yn cynnwys esboniad o'ch rhesymau. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniadau, ond os cawn gais am ddatgelu gwybodaeth ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol i'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn y mae angen inni ei wneud, a’r ffordd y gallwch chi ein helpu | 4 |
| Dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol a’r ffordd y cafodd ei chyflawni yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf | 4 |
| Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn yr ail gyfnod adrodd | 8 |
| Gwerthuso ein methodoleg archwilio | 11 |
| Ffioedd archwilio | 11 |
| Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym | 11 |
| Y ffordd yr ydym yn ymgymryd â’n gwaith yn 2020-21 | 12 |
| Cwestiynau ymgynghori | 12 |

# Cyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol, 2020-25

## Yr hyn y mae angen inni ei wneud, a'r ffordd y gallwch chi ein helpu

1 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad statudol cyntaf dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mis Mai 2020. Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwiliadau i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn 2018-19 a 2019-20 a gwaith perthnasol arall. Ochr yn ochr ag adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd yn nodi diwedd y 'cyfnod adrodd' cyntaf a bennwyd dan y Ddeddf.

2 Nawr, mae cyfle inni fwrw golwg mwy hirdymor ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod yr ail gyfnod adrodd sy'n estyn o 2020 tan 2025. Mae angen inni ystyried yr hyn y gall fod angen inni ei wneud yn wahanol a'r ffordd y gallwn ni adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd hyd yma a'i wella.

3 Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn i ofyn ichi am eich barn chi fel rhan o'r broses honno. Rydym yn ymgynghori â phob un o'r 44 corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

4 Bydd yr ymgynghoriad ar waith am chwe wythnos, a bydd yn cau ddydd Gwener 6 Tachwedd 2020.

## Dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r ffordd y cafodd ei chyflawni yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf

5 Yn unol â'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fyddant:

- yn pennu eu hamcanion llesiant; ac
- yn cymryd camau i'w cyflawni.

6 Rhaid iddo gynnal ymchwiliad o'r fath ym mhob corff cyhoeddus o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adrodd, a rhaid iddo roi adroddiad i'r Senedd am ganlyniadau'r ymchwiliadau hynny.[1]

7 Mae hon yn ddyletswydd ymestynnol sy'n mynd ag archwilio i dir newydd. Mae'n gofyn inni ystyried y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio, yn hytrach na pha mor dda y maent yn gwneud rhywbeth. Felly, roedd hi'n amlwg o'r dechrau y

[1] Adran 15, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

byddai angen inni deilwra dull newydd o weithredu i fodloni gofynion ac ysbryd y ddeddfwriaeth.

8 Gan gadw hyn mewn cof, bu inni wneud yr hyn a ganlyn yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf:

**a) Llunio methodoleg archwilio newydd i asesu'r modd y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei rhoi ar waith**

**b) Rhoi pwyslais ar gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddysgu ac i wella**

**c) Ymgymryd â gwaith archwilio pwrpasol i asesu'r modd y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei rhoi ar waith**

**ch) Cydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i thîm**

**a). Llunio methodoleg archwilio newydd i asesu'r modd y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei rhoi ar waith**

9 Bu inni ymgymryd â rhaglen waith gynhwysfawr i bwyso a mesur y ffordd orau o gyflawni dyletswydd newydd yr Archwilydd Cyffredinol, a hynny ar y cyd â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Rhwng 2016 a 2018, aethom ati i ymgynghori'n ffurfiol, i ymgysylltu'n helaeth ac i gynnal rhaglen o brosiectau peilot a ddefnyddiwyd i lunio'r fethodoleg archwilio newydd ar y cyd.

10 Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r hyn y dywedodd rhanddeiliaid wrthym a'r ffordd y bu inni roi sylw i'r adborth hwnnw yn y dull a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ymchwiliadau 2018-19 a 2019-20.

**Arddangosyn 1**

**Y dasg i randdeiliaid**

'Mae angen i chi edrych y tu hwnt corfforaethol a chanolbwyntio ar i gynllunio strategol a threfniadau faterion mwy gweithredol hefyd'

'Mae angen i chi ganolbwyntio ar ddulliau gweithio ac ystyried ymddygiad, yn hytrach na chanolbwyntio ar brosesau a threfniadau'

'Dylech ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl, gan gynnwys partneriaid a dinasyddion'

'Mae angen i chi weithio gyda'r Comisiynydd er mwyn pennu disgwyliadau cyson a chydgysylltu'ch gweithgarwch'

'Mae angen i chi osgoi canolbwyntio ar gydymffurfiaeth a chysondeb'

**Yr hyn y gwnaethom ni yn wahanol**

Bu inni lunio methodoleg archwilio a oedd yn seiliedig ar y pum ffordd o weithio ac yn ystyried ymddygiadau

Bu inni ymchwilio i gamau penodol, gan roi sylw i ystod eang o wasanaethau a swyddogaethau

Bu inni gynnwys swyddfa'r Comisiynydd yn y gwaith o lunio'r fethodoleg archwilio a'r gwaith maes ymchwilio

Bu inni lunio ein methodoleg i archwilio ac i ddeall y cyd-destun, gan gydnabod y bydd angen rhoi'r ffyrdd o weithio ar waith yn wahanol

Bu inni sicrhau ein bod yn siarad â thrawstoriad o staff a rhanddeiliaid yn ystod ein gwaith maes

11 Bu inni hefyd drosi'r adborth hwn yn gyfres o egwyddorion i lywio ein gwaith yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf. Fe'i dangosir isod fel **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2**

**Ein hymrwymiad**

Canolbwyntio ar y 'pum ffordd o weithio'

Canolbwyntio ar 'sut' mae sefydliadau yn gweithio, yn ogystal â 'beth' maent yn ei wneud

Helpu cyrff cyhoeddus i hunanfyfyrio ac archwilio beth y gallent ei wneud yn wahanol

Cipio naratif a gofyn am safbwyntiau trawstoriad o staff a rhanddeiliaid

Darparu adborth cynnar

Annog cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu camau gweithredu eu hunain mewn ymateb i'n canfyddiadau



12 Rydym wrthi'n gwerthuso'r fethodoleg archwilio er mwyn inni barhau i fireinio ac i wella'r ffordd yr ydym yn cynnal yr ymchwiliadau. I wneud hyn, rydym wedi gofyn am farn pobl ym mhob corff a archwilir a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â phob ymchwiliad. I gael mwy o wybodaeth, gweler **paragraffau 32 a 33**.

**b). Rhoi pwyslais ar gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddysgu ac i wella**

13 Bu inni gydnabod bod dyletswyddau'r cyrff cyhoeddus yn heriol ac yn ymestynnol. Bu inni gydnabod ei bod yn cymryd amser i newid diwylliant ac na fydd y newidiadau eang y mae'r Ddeddf yn ceisio eu gwireddu yn digwydd dros nos.

14 Bu inni hefyd gydnabod y byddai angen amser a lle ar y cyrff cyhoeddus i ddechrau cyflawni eu hamcanion llesiant newydd, amcanion yr oedd gofyn i bob un ohonynt (ac eithrio Gweinidogion Cymru) eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2017. Bu i hyn lywio amseriad a hyd a lled y gwaith y bu inni ymgymryd ag ef i gyflawni ein dyletswydd (gweler **paragraffau 16 a 17** hefyd).

15 Pwysleisiodd ein sgyrsiau â'r cyrff cyhoeddus mai'r ffordd orau inni ychwanegu gwerth fyddai drwy eu helpu i ddysgu ac i wella, yn enwedig ym mlynyddoedd cynnar y Ddeddf. Yn ogystal â chadw hyn mewn cof wrth inni lunio ein methodoleg, bu inni bennu disgwyliadau rhesymol a rhoi sylw i'r cydbwysedd hwnnw pan fu inni adrodd am ein canfyddiadau.

### c). Ymgymryd â gwaith archwilio pwrpasol i asesu'r modd y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei rhoi ar waith

16 Bu inni ddewis ymgymryd â darnau penodol o waith i asesu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn hytrach na chynnwys yr ystyriaethau hynny mewn gwaith archwilio arall a gynlluniwyd gennym. O wneud hyn, bu modd inni gyflawni'r ddyletswydd statudol newydd yn glir ac yn uniongyrchol. Bu hefyd yn fodd o roi'r amlygrwydd angenrheidiol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy; bu iddo ein helpu i ddysgu mwy am sut i asesu'n briodol y ffordd y mae'n cael ei rhoi ar waith ac rydym yn gobeithio iddo helpu'r cyrff cyhoeddus i ddysgu mwy am yr hyn y mae rhoi'r egwyddor ar waith yn effeithiol yn ei olygu'n ymarferol. Serch hynny, bu inni gynnwys yr ymchwiliadau yn ein rhaglenni gwaith archwilio lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. O'r herwydd, ni chynyddodd swm y gwaith archwilio ym mwyafrif llethol y cyrff, ac ni chodwyd unrhyw ffioedd archwilio ychwanegol.

17 Fel y nodir ym **mharagraff 5**, rhaid i ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i ddwy elfen: a). asesu'r modd y cafodd amcanion llesiant eu pennu a b). asesu'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni. Penderfynwyd gwahanu'r elfennau hyn oherwydd eu bod yn eu hanfod yn ddarnau gwahanol o waith ac oherwydd y byddai'n caniatáu inni eu hasesu ar adegau priodol yn ystod y cyfnod adrodd. Felly, bu inni wneud yr hyn a ganlyn:

- pwyso a mesur sut yr oedd y cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant cyntaf ac adrodd am ein canfyddiadau yn Myfyrio ar flwyddyn un: Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? yn 2018.
- cynnal 71 ymchwiliad o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion llesiant ym mhob un o'r 44 corff cyhoeddus. I wneud hyn, bu inni ystyried cam neu ddau ym mhob corff, a thri cham yn Llywodraeth Cymru, rhwng 2018-19 a 2019-20. Roeddem yn teimlo bod hon yn ffordd gymesur o weithredu, o gofio'r ystyriaethau ym **mharagraff 14**. Mae'r adroddiadau ar gael ar ein gwefan.

### ch). Cydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i thîm

18 Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Comisiynydd a'i thîm yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf. Fel rhan o'r cydweithio hwn, lluniwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi sut y bydd ein sefydliadau'n cydweithio pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau perthnasol.

19 Aethom ati hefyd i fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd tîm y Comisiynydd drwy eu cynnwys yn y broses o lunio ein methodoleg archwilio. Bu inni estyn gwahoddiad iddynt gymryd rhan mewn rhai elfennau o'r ymchwiliadau, a bu inni gydweithio'n agos â nhw pan oeddem ni a swyddfa'r Comisiynydd yn llunio ein hadroddiadau statudol. Bu i ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol gynorthwyo i osod sail ar gyfer argymhellion y Comisiynydd yn ei hadroddiad hithau.

# Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn yr ail gyfnod adrodd

20 Roedd y cyfnod adrodd cyntaf dan y Ddeddf yn unigryw. Rydym wedi dweud yn blwmp ac yn blaen o'r dechrau y bydd angen i'n dull archwilio ddatblygu hefyd wrth inni i gyd feithrin mwy o wybodaeth ac arbenigedd o ran rhoi'r Ddeddf ar waith. Yn benodol, rydym yn bwriadu symud at ddull mwy integredig o gyflawni ein hymchwiliadau, codi ein disgwyliadau, a rhoi mwy o her wrth i allu'r cyrff cyhoeddus gynyddu dros gyfnod.

21 Yn ystod yr ail gyfnod adrodd, rydym yn cynnig gwneud yr hyn a ganlyn:

- **a) parhau i gynnal ymchwiliadau penodol i asesu'r modd y mae amcanion llesiant yn cael eu pennu ar y naill law a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni ar y llaw arall;**
- **b) integreiddio'r gwaith o ymchwilio i'r camau sy'n cael eu cymryd â'n hastudiaethau gwerth am arian a'n gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo modd; a**
- **c) chryfhau ac ehangu'r broses o gydgysylltu ein gwaith â gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**a). Parhau i gynnal ymchwiliadau penodol i asesu'r modd y mae amcanion llesiant yn cael eu pennu ar y naill law a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni ar y llaw arall**

22 Rydym yn cynnig cynnal ymchwiliadau pwrpasol i asesu'r modd y mae amcanion llesiant yn cael eu pennu i adlewyrchu natur benodol y gofyniad hwn. Byddem yn gwneud hyn o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adrodd ym mhob un o'r 44 corff cyhoeddus. Yna, gallem gynnal ymchwiliadau pellach o'r modd y cafodd amcanion eu pennu mewn achosion lle cafodd gwendidau eu canfod neu os bydd corff cyhoeddus yn mynd ati i newid ei amcanion llesiant yn sylweddol. Bydd amseriad y gwaith hwn yn dibynnu ar gylchoedd cynllunio pob corff cyhoeddus.

23 Rydym yn bwriadu asesu'r camau a gymerir i gyflawni'r amcanion llesiant ym mhob corff cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd. Byddwn yn mynd ati i wneud hyn mewn ffordd gymesur, gan ystyried risg, maint y corff, a pha mor amrywiol yw ei swyddogaethau.

24 O wahanu'r gofynion, bydd yn caniatáu inni ystyried yr amcanion llesiant a'r camau a gymerir i'w cyflawni mewn ffordd amserol, a chasglu gwybodaeth gronnus drwy'r cyfnod adrodd ar gyfer adroddiad statudol nesaf yr Archwilydd Cyffredinol yn 2025, gan sicrhau ein bod yn cofnodi'r cynnydd a wnaed ac yn adrodd am wybodaeth gyfredol. Bydd hefyd yn sicrhau bod yr ymchwiliadau'n gofyn am lai o adnoddau ac yn llai o faich ar y cyrff cyhoeddus nag ymchwiliadau cyfnodol a fyddai'n ystyried yr amcanion llesiant a nifer o gamau i'w cyflawni ar ffurf un darn o waith.

25 Caiff yr ymcwhiliadau, fwy na thebyg, eu cyflawni fel rhan o raglenni archwilio lleol yng nghyrff y GIG, mewn cyrff llywodraeth leol, yn yr awdurdodau tân ac achub ac yn awdurdodau'r parciau cenedlaethol i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.[2]

26 Mae sail ddeddfwriaethol ein gwaith mewn llywodraeth ganolog yn wahanol. O'r herwydd, nid oes gennym raglenni gwaith cyfatebol yn Llywodraeth Cymru nac mewn cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru y byddai modd inni gynnwys ein hymchwiliadau ynddynt yn rhwydd. Felly, bydd angen inni roi trefniadau eraill ar waith ar eu cyfer.

**b). Integreiddio'r gwaith o ymchwilio i'r camau sy'n cael eu cymryd â'n hastudiaethau gwerth am arian a'n gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo modd**

27 Roedd nifer o fanteision i'w cael o ymgymryd â gwaith pwrpasol i asesu sut y cymerwyd camau i ddiwallu amcanion llesiant yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf. Fodd bynnag, ein huchelgais yn y tymor hirach oedd integreiddio'r ymchwiliadau hyn â'n gwaith archwilio ehangach. Cafwyd rhai enghreifftiau o hyn yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf, ond rydym yn bwriadu gwneud hyn fel mater o drefn. Mae hyn yn golygu, o ran Llywodraeth Cymru, y byddwn yn integreiddio'r ymchwiliadau i'r camau a gymerwyd i gyflawni ei hamcanion llesiant â'n rhaglen o astudiaethau gwerth am arian. O ran cyrff y GIG, cyrff llywodraeth leol, yr awdurdodau tân ac achub a'r parciau cenedlaethol, byddwn yn cyflawni'r ymchwiliadau fel rhan o'n rhaglenni archwilio lleol a'u hymgorffori yn y prosiectau hynny.

28 Bydd i integreiddio'n gwaith yn y ffordd hon y manteision a ganlyn:

- **bydd yn sicrhau bod modd inni gael golwg cynhwysfawr ar berfformiad y cyrff cyhoeddus a rhoi cipolwg manylach iddynt ar eu sefyllfaoedd nhw.** Yn wir, mae risgiau posibl ynghlwm wrth ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy ar wahân i werth am arian. Nid yw'r naill gysyniad yn annibynnol ar y llall: mae angen ystyried gwerth, ac yn enwedig effeithiolrwydd, mewn perthynas ag ystyriaethau hirdymor. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi dulliau ataliol ar waith sy'n gwireddu buddion amrywiol ar draws ffiniau sefydliadau.
- **bydd yn sicrhau bod modd inni asesu camau drwy ymchwiliadau mwy amrywiol a niferus.** Bydd hyn yn ein helpu i ddod i ddeall yn well sut y mae corff cyhoeddus yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, yn ogystal â sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth dros gyfnod.

[2] Er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon bod corff llywodraeth leol neu un o gyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ('gwerth am arian'), a dod i'r casgliad hwnnw, rhaid i archwilwyr lunio rhaglen waith flynyddol at y diben hwnnw ym mhob corff o'r fath.

29 Bydd angen inni roi trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen cynnal ymchwiliadau neilltuol i asesu'r ffordd y mae'r cyrff hyn yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith pan fyddant yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant, yn ogystal ag asesiad ar wahân o'r ffordd y maent wedi pennu'u hamcanion llesiant.

**c). Cryfhau ac ehangu'r broses o gydgysylltu ein gwaith â gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

30 Rydym yn deall mai ein rôl ni yw helpu i greu'r amodau sy'n hybu'r ymddygiadau cywir ac yn cefnogi, yn hytrach na rhwystro, cynnydd dan y Ddeddf. Mae'r berthynas rhyngom a swyddfa'r Comisiynydd yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 yn disgrifio'r her y mae cyrff cyhoeddus yn ei hwynebu o ran rhoi'r Ddeddf ar waith ac yn dweud:

> Gall y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol helpu trwy ganolbwyntio ar y materion cywir, gosod disgwyliadau cyson ac osgoi gorlwytho cyrff cyhoeddus â gofynion monitro. Mae'r ddwy swyddfa wedi cydweithio'n agos i geisio cyflawni hyn, ond rydym yn ymwybodol bod modd gwneud mwy. Byddwn yn parhau i gryfhau'r broses o gydgysylltu ein gwaith yn ystod y cyfnod nesaf.[3]

31 I wireddu hyn, rydym yn cynnig:

- **cydgysylltu a). asesiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r ffordd y cafodd yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei rhoi ar waith wrth bennu amcanion llesiant a b). gwaith y Comisiwn i fonitro ac i asesu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion llesiant.** Pan fyddwn yn cynnal asesiad yr Archwilydd Cyffredinol, bydd angen inni bwyso a mesur y broses y mae cyrff cyhoeddus wedi mynd drwyddi i adolygu ac i ddiwygio'r amcanion hynny. O wneud hyn, bydd modd inni gasglu gwybodaeth a all helpu'r Comisiynydd i gyflawni ei dyletswydd hithau. Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich ar gyrff cyhoeddus ac yn gwneud defnydd da o'n hadnoddau ni ac adnoddau swyddfa'r Comisiynydd.
- **pwyso a mesur cyfleoedd i gynnal astudiaethau/adolygiadau cydgysylltiedig.** Gall fod cyfleoedd i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd ymgymryd â gwaith cydgysylltiedig ar faterion lle y mae'r ddau wedi pennu risg. Bydd yn gyfle i fanteisio ar wybodaeth a sgiliau'r ddau sefydliad.

[3] Archwilio Cymru, Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol, Mai 2020.

## Gwerthuso ein methodoleg archwilio

32 Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych tua'r dyfodol ac yn gofyn i bobl roi eu barn ar y trywydd strategol y byddwn yn ei ddilyn i gyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym hefyd wrthi'n gwerthuso manylion y fethodoleg archwilio a ddefnyddiwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi gofyn am adborth gan sampl o'r cynrychiolwyr a fu'n ymwneud â phob un o'r ymchwiliadau yn y 44 corff.

33 Rydym yn defnyddio'r adborth hwn i barhau i ddatblygu ac i fireinio ein methodoleg archwilio. Felly, gallwch ddisgwyl gweld rhai newidiadau ymarferol i'r ffordd y byddwn yn ymgymryd â'n gwaith. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddysgu ac i wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r gwaith hwn. Rydym yn bwriadu cael sgwrs barhaus â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol, a byddwn yn sicrhau ein bod yn gwerthuso ac yn mireinio ein dulliau archwilio fel mater o drefn.

## Ffioedd archwilio

34 Oherwydd ein bod yn cynnig cynnwys ein hymchwiliadau mewn rhaglenni archwilio lleol, lle bynnag y bo modd, ni fyddwn yn gyffredinol yn ychwanegu at gyfanswm ein gwaith archwilio. Felly, nid ydym yn disgwyl y bydd ffioedd archwilio cyrff y GIG, cyrff llywodraeth leol, yr awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn cynyddu oherwydd y gwaith hwn.

35 Fodd bynnag, fel y disgrifir ym **mharagraffau 26 a 29**, bydd angen inni roi trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r chwe chorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a enwir yn y Ddeddf. Rydym yn ystyried sut y gallem ariannu'r ymchwiliadau yn y cyrff a noddir drwy ddulliau amgen, yn hytrach na chodi ffioedd. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl ariannu'r holl waith hwn yn Llywodraeth Cymru ac yn yr holl gyrff a noddir heb godi ffioedd. Byddwn yn trin a thrafod y mater ymhellach â'r cyrff hynny a byddwn yn amlinellu'r goblygiadau tebygol yn yr ymgynghoriad statudol blynyddol am ein ffioedd a gaiff ei lansio ym mis Tachwedd 2020.

## Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

36 Rydym yn ddiolchgar ichi am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn sicrhau bod y safbwyntiau a fynegir gennych yn llywio ein gwaith yn y dyfodol mewn ffordd glir ac ystyrlon.

37 Byddwn yn ysgrifennu at y cyrff cyhoeddus i rannu ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol cyn diwedd 2020, a byddwn yn mynd ati i roi'r cynlluniau hynny ar waith yn ystod 2021-22.

38 Byddwn yn parhau i gydweithio â chi i adolygu ein dull o weithredu yn ystod y cyfnod adrodd.

## Y ffordd yr ydym yn ymgymryd â'n gwaith yn 2020-21

39 Mae 2020-21 yn flwyddyn nad yw cyrff cyhoeddus wedi gweld ei thebyg o'r blaen. Bu'n rhaid inni adolygu a newid ein cynlluniau archwilio i sicrhau eu bod yn ystyried y pwysau ar gyrff cyhoeddus, a hynny o ran eu hamseriad, hyd a lled y gwaith y byddwn yn ymgymryd ag ef, a ffocws y gwaith hwnnw. Rydym wedi llunio prosiectau i helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu o'r profiad o ymateb i'r pandemig [Prosiect Dysgu COVID] ac i daflu goleuni ar y sefyllfa i osod sail ar gyfer y broses o gynllunio'r adferiad. Rydym yn achub ar y cyfle i gasglu gwybodaeth berthnasol am y ffordd y mae cyrff yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn ystod ein gwaith yn 2020-21, fel y bo'n briodol.

## Cwestiynau ymgynghori

**Ceir wyth cwestiwn i gyd, ond ni fydd pob un ohonynt yn berthnasol i chi. Hoffem wybod am yr hyn a fyddai'n gweithio i'ch sefydliad chi, ac am unrhyw faterion sector-benodol y dylem eu hystyried. Rydym yn croesawu atebion di-flewyn-ar-dafod er mwyn inni sicrhau bod ein gwaith yn y dyfodol yn ychwanegu gwerth i'r cyrff cyhoeddus ac yn gosod sail ar gyfer gwaith craffu priodol.**

**Allech ddychwelyd eich ymatebion i'r cwestiynau isod erbyn dydd Gwener 6 Tachwedd at wfg@archwilio.cymru.**

| Enw: |
|---|

| Sefydliad: |
|---|

| Ebost: |
|---|

1. Buom yn cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid i lunio cyfres o egwyddorion a lywiodd ein hymchwiliadau yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf.

   Roedd ein dull o weithredu'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- Canolbwyntio ar y ‘pum ffordd o weithio’
- Canolbwyntio ar ‘sut’ y mae sefydliadau’n gweithio, yn ogystal â ‘beth’ y maent yn ei wneud
- Helpu cyrff cyhoeddus i hunanfyfyrio ac i archwilio’r hyn y gallent ei wneud yn wahanol
- Cofnodi naratif a gofyn am safbwyntiau trawstoriad o staff a rhanddeiliaid
- Rhoi adborth cynnar
- Annog cyrff cyhoeddus i lunio eu camau gweithredu eu hunain yn sgil ein canfyddiadau

**I ba raddau ydych chi’n meddwl bod angen newid yr egwyddorion hyn ar gyfer y cyfnod adrodd hwn? Rhowch sylwadau penodol am unrhyw beth y dylid ei newid yn eich barn chi, a sut y dylid ei newid.**

2. Yn unol â’r Ddeddf, mae’n ofynnol inni asesu’r ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Mae hwn yn ofyniad penodol, felly rydym yn cynnig ymgymryd â phrosiect pwrpasol ym mhob un o’r 44 corff.

   Rydym yn cynnig gwneud hyn o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adrodd, gan gynnal ymchwiliadau pellach o’r modd y cafodd amcanion eu pennu mewn achosion lle cafodd gwendidau eu canfod neu os bydd corff cyhoeddus yn mynd ati i newid ei amcanion llesiant yn sylweddol.

   Bydd amseriad y gwaith hwn yn dibynnu ar gylchoedd cynllunio pob corff cyhoeddus.

   **Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i ymgymryd â gwaith penodol o ran yr amcanion llesiant yn y ffordd hon? Rhowch sylwadau.**

3. Yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf, bu inni gynnal ymchwiliadau pwrpasol i'r ffordd yr oedd cyrff cyhoeddus yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith pan oeddent yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Ein bwriad yw mynd ati i brif-ffrydio'r gwaith hwn, lle bo modd, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

   Rydym yn cynnig gwneud hyn drwy integreiddio ein hymchwiliadau i'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion llesiant â'n hastudiaethau gwerth am arian yn Llywodraeth Cymru a'n rhaglenni archwilio lleol yng nghyrff y GIG, mewn cyrff llywodraeth leol, yn yr awdurdodau tân ac achub ac yn awdurdodau'r parciau cenedlaethol (i gael gwybodaeth am gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, gweler **cwestiwn 5**). Bydd hyn yn sicrhau bod modd inni gael golwg cynhwysfawr ar y perfformiad ac asesu'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ymchwiliadau mwy amrywiol a niferus.

   **Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i gyfuno ymchwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion llesiant â'n hastudiaethau gwerth am arian a'n rhaglenni archwilio lleol? Rhowch sylwadau.**

| |
|---|
| |

4. Bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ystyriaeth berthnasol ym mhob rhan o'n gwaith archwilio, a byddwn yn ei hystyried ym mhob cam, o asesu risg i gwmpasu prosiectau ac adrodd amdanynt.

   Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys nifer benodol o brosiectau archwilio sy'n canolbwyntio ar y camau a bennwyd i gyflawni'r amcanion llesiant (h.y. mae'r rhain yn debygol o fod wedi'u nodi yn natganiadau llesiant y cyrff) yn ein hastudiaethau gwerth am arian a'n rhaglenni archwilio lleol. O ran y darnau hyn o waith, byddwn yn cynnal profion manwl o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

   Felly, byddwn yn rhoi ystyriaeth gyffredinol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhob rhan o'n gwaith, a byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn pwyso a mesur yn fanwl y modd y mae'n cael ei rhoi ar waith er mwyn inni gyflawni ein dyletswydd yn glir ac yn uniongyrchol pan fyddwn yn ymchwilio i'r camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant.

**Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir gennym, a faint o ffocws ydych chi'n credu y dylem ei roi ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein gwaith?**

| |
|---|
| |

5. Mae ein gwaith yn y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru'n wahanol i'r gwaith yr ydym yn ymgymryd ag ef mewn cyrff cyhoeddus eraill, ac nid yw'n bosibl inni integreiddio ymchwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy â'n rhaglenni archwilio presennol. Felly, bydd angen inni gynnal ymchwiliadau neilltuol i asesu sut y mae'r cyrff hyn wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fyddant yn pennu amcanion llesiant ac yn cymryd camau i'w cyflawni.

**Rhowch eich barn am hyd a lled y gwaith hwn, pa mor aml y dylid ymgymryd ag ef, a'r ffordd orau o sicrhau ei fod yn gymesur ac yn ychwanegu gwerth.**

| |
|---|
| |

6. Mae pwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dan Ddeddf 2015 yn perthyn yn agos i'w gilydd. Rydym wedi cadw mewn cof y perygl o ddyblygu gwaith, rhoi baich diangen ar gyrff cyhoeddus, a phennu disgwyliadau gwahanol a allai greu dryswch. Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd, ac mae ein swyddfeydd eisoes yn cydweithio'n agos. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy y gallem ei wneud i gydgysylltu ein gwaith yn well ac i ddefnyddio adnoddau'r ddau sefydliad yn y ffordd orau.

   Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, rydym yn bwriadu:

   - **cydgysylltu'r gwaith o ran pennu amcanion llesiant â'r gwaith i'w monitro a'u hasesu.** Pan fyddwn yn cynnal asesiad yr Archwilydd Cyffredinol, bydd angen inni bwyso a mesur y broses y mae cyrff cyhoeddus wedi mynd drwyddi i adolygu ac i ddiwygio'r amcanion hynny. O wneud hyn, bydd modd inni gasglu gwybodaeth a all helpu'r Comisiynydd i gyflawni ei dyletswydd hithau. Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich ar gyrff cyhoeddus ac yn gwneud defnydd da o'n hadnoddau ni ac adnoddau swyddfa'r Comisiynydd.

- **pwyso a mesur cyfleoedd i gynnal astudiaethau/adolygiadau cydgysylltiedig.** Gall fod cyfleoedd i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd ymgymryd â gwaith cydgysylltiedig ar faterion lle y mae'r ddau wedi pennu risg. Bydd yn gyfle i fanteisio ar wybodaeth a sgiliau'r ddau sefydliad.

**Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gryfhau'r trefniadau i gydgysylltu ein gwaith â gwaith swyddfa'r Comisiynydd? Rhowch sylwadau.**

| |
|---|
| |

7. Yn unol â'r Ddeddf, mae'n ofynnol i ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol ganolbwyntio ar gyrff cyhoeddus unigol. Er bod angen inni asesu cydweithio fel rhan o'r gwaith hwnnw, mae cyfle i fynd ati ar sail system gyfan i asesu sut y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. I wneud hyn, gallem ganolbwyntio ar fater penodol, mewn ardal benodol o bosibl, a chynnal ymchwiliadau i'r mater hwnnw mewn mwy nag un corff.

   **Ydych chi'n cytuno y dylem ystyried sut y gallem fynd ati ar sail system gyfan neu ar sail ardal i asesu'r camau a gymerwyd i gyflawni amcanion llesiant? Rhowch sylwadau.**

| |
|---|
| |

8. Yn ein hadroddiad ym mis Mai 2020, rhestrwyd rhai o’r prif heriau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Yn eu plith mae’r argyfwng hinsawdd, anghydraddoldeb sy’n parhau ac yn gwaethygu, rheoli ymadawiad y DU â’r UE, ac effaith y pandemig yn y tymor canol a’r tymor hir. Mae’r Ddeddf yn darparu fframwaith y gall cyrff cyhoeddus ei ddefnyddio i lunio ymatebion hirdymor cydweithredol sy’n cydnabod y berthynas rhwng yr heriau cysylltiedig hyn. Rydym am sicrhau bod ein gwaith yn rhoi sylw i’r heriau mawr y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu yn ystod yr ail gyfnod adrodd hwn.

   **A oes unrhyw faterion penodol y bydd yn bwysig inni roi sylw iddynt yn ein hymchwiliadau yn y dyfodol yn eich barn chi?**

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn destun: 029 2032 0660

Ebost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.